# Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

# Crynodeb o'r newidiadau yng Nghyfnod 3

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi rhai o'r prif newidiadau a wnaed i'r *Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)* ("y Bil") yn ystod trafodion Cyfnod 3.

## Cefndir

Cyflwynwyd y Bil gan Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ("y Dirprwy Weinidog"), ar 28 Ionawr 2013, a phenderfynodd y Pwyllgor Busnes y dylai fod yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ("y Pwyllgor") ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1.

Clywodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc hefyd dystiolaeth ynghylch y Bil yng Nghyfnod 1 gan gyflwyno ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei adroddiad Cyfnod 1 ym mis Gorffennaf 2013. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei adroddiad ar y Bil yn yr un mis hefyd. Cymeradwywyd y Bil yng Nghyfnod 1 gan y Cynulliad yn dilyn dadl ynghylch ei egwyddorion cyffredinol yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Hydref 2013.

Dechreuodd Cyfnod 2 ar 9 Hydref 2013 a chyfarfu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i drafod a gwaredu'r gwelliannau ar 13 Tachwedd, 27 Tachwedd, 5 Rhagfyr a 11 Rhagfyr 2013.

Dechreuodd Cyfnod 3 ar 12 Rhagfyr a chafodd y gwelliannau eu trafod a'u gwaredu yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad ar 4 Chwefror a 11 Chwefror 2014.

Mae rhagor o wybodaeth am y Bil (fel y'i cyflwynwyd) ar gael yn y ddogfen **Crynodeb o Fil** a baratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil

## Gwelliannau a dderbyniwyd yng Nghyfnod 3

***Nodwch fod y rhifau isod yn cyfeirio at adrannau'r Bil fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 3.***

### Gofal cymdeithasol i bobl sydd yn y ddalfa

- Gwelliannau 50-53 ac adrannau newydd 179-182. Mae'r rhain yn esbonio pa garcharorion sy'n oedolion yng Nghymru sy'n gymwys i gael gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan adlewyrchu darpariaethau tebyg ym Mil Gofal Lloegr. Yr awdurdod lleol y lleolir y carchar ynddo a fydd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal i garcharorion. Mae'r adrannau newydd hefyd yn darparu ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc sydd yn y ddalfa, fel y nodir ar hyn o bryd yn *Neddf Plant 1989*. Fodd bynnag, yn wahanol i oedolion, yr awdurdod lleol yr oeddent yn byw ynddo cyn cael eu rhoi yn y ddalfa a fydd yn gyfrifol amdanynt.

### Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn

- Mae gwelliant 292 (Darren Millar) yn mewnosod cyfeiriad yn adran 6 o'r Bil at Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, ac yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i roi sylw dyledus i'r Egwyddorion.

### Strategaethau gofalwyr

- Mae gwelliant 115 yn mewnosod isadrannau newydd yn adran 13 o'r Bil a fydd yn diwygio adran 40 o *Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006*. Y nod yw ceisio cadw rôl arweiniol y Byrddau Iechyd Lleol o ran strategaethau gofalwyr, fel y nodir ym *Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010* a ddiddymir gan y Bil. Bydd Deddf ddiwygiedig 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol gyflwyno unrhyw ran o'u strategaethau iechyd a lles sy'n ymwneud â

gofalwyr i Weinidogion Cymru. Dywedodd y Dirprwy Weinidog mai bwriad y gwelliant oedd mynd i'r afael â phryderon ynghylch diddymu darpariaethau *Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010.*

## Cofrestrau o bobl a nam ar eu golwg, nam ar eu clyw a phobl anabl eraill

- Mae gwelliannau 122, 123, 124 a 126 i'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gofnodi anghenion ieithyddol pobl (er enghraifft, siaradwyr Cymraeg) sydd wedi'u cynnwys ar gofrestrau o bobl â nam ar eu golwg, nam ar eu clyw a phobl anabl eraill o dan adran 17. Dywedodd y Dirprwy Weinidog mai'r nod oedd mynd i'r afael â mater a godwyd yng Nghyfnod 2 gan Elin Jones. Mae'r gwelliannau hefyd yn darparu ar gyfer nodi data personol ynghylch unigolion y dylid eu heithrio o gofrestrau os yw'r unigolion dan sylw yn dymuno i hynny ddigwydd.

## Asesu plant anabl

- Mae gwelliant 131 yn mewnosod isadran newydd yn adran 20 sy'n golygu nad yw'r ddyletswydd i asesu plant anabl yn dibynnu ar benderfyniad yr awdurdod lleol a oes canfyddiad o angen, fel sy'n ofynnol o dan isadran (1). Dywedodd y Dirprwy Weinidog mai'r nod oedd cyflawni ei hymrwymiad i 'basportio' plant anabl i asesiad o anghenion er mwyn mynd i'r afael â phryderon nad oedd darpariaethau *Deddf Plant 1989* yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y Bil.

## Adolygu asesiadau o anghenion a chynlluniau gofal a chymorth

- Mae gwelliant 142 yn mewnosod isadran newydd yn adran 26 sy'n ymwneud a rheoliadau ar gyfer adolygu asesiadau o anghenion, gan gynnwys y bobl a gaiff ofyn am adolygiad, a'r amgylchiadau pryd y caiff awdurdod lleol wrthod cais.

- Mae gwelliannau 159-164 a 176-181 yn gwneud darpariaethau tebyg o ran cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer oedolion a phlant sy'n derbyn gofal. Mae adran 48 ac adran 77, ar gyfer oedolion a phlant sy'n derbyn gofal yn y drefn honno, wedi'u diwygio i'w gwneud yn ofynnol cael ailasesiad os bydd newid mewn amgylchiadau yn effeithio ar gynllun gofal a chymorth. Mae'n rhaid i'r rheoliadau nodi'r unigolion a gaiff ofyn am adolygiad o gynllun gofal a chymorth, a phryd y gall awdurdod lleol wrthod cais. Nodir y rhai y mae'n rhaid iddynt fod yn rhan o'r gwaith o gynllunio gofal yn adran 48 ac adran 77, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr.

## Rheoliadau ar feini prawf cymhwysedd

- Mae gwelliant 18 yn gweithredu, yn adran 29, ymrwymiad a wnaed gan y Dirprwy Weinidog yng Nghyfnod 2 i wneud rheoliadau ar feini prawf cymhwysedd yn destun y weithdrefn uwchgadarnhaol.

- Mae gwelliant 59 yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i'r rheoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pwerau yn adran 29 fod ar waith cyn y gellir cychwyn y dyletswyddau yn adran 29(1) a 29(2). O ganlyniad i hyn, bydd yn rhaid i'r Cynulliad gytuno ar y lefelau a bennir ar gyfer y meini prawf cymhwysedd cyn y gellir eu rhoi ar waith.

## Codi ffioedd ar bobl ifanc 16 a 17 oed

- Mae gwelliannau 23-38, 40-45, 60 a 47 yn dileu'r pŵer yn adran 54 o'r Bil (ac yn diwygio adrannau perthnasol eraill) i godi ffioedd ar bobl ifanc 16 a 17 oed am wasanaethau gofal a chymorth, ac ar ofalwyr sy'n 16 a 17 oed am wasanaethau cymorth. Mae'r gwelliannau yn gweithredu ymrwymiad a wnaed gan y Dirprwy Weinidog yng Nghyfnod 2.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

## Adolygu penderfyniadau ynghylch trosglwyddo asedau i osgoi ffioedd

- Mae gwelliannau 168 a 169 yn ymwneud ag adolygu penderfyniadau ynghylch trosglwyddo asedau i osgoi ffioedd. Mae'n yn ymestyn y pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 67 yn unol â hynny ac yn adlewyrchu ymrwymiad a wnaed gan y Dirprwy Weinidog yng Nghyfnod 2.

## Llety ar gyfer plant a fu'n derbyn gofal

- Mae gwelliant 75 yn mewnosod adran newydd yn y Bil sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu cymorth, lle y bo'n briodol, i bobl ifanc "Categori 1" a leolir gyda gofalwr maeth i barhau â'u lleoliadau wedi iddynt gyrraedd 18 oed. Mae gwelliant 76 yn diwygio adran 104 o'r Bil i roi dyletswyddau ar awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am bobl ifanc "Categori 3" sydd â threfniant lletya ôl-18 i fonitro a chynorthwyo trefniadau o'r fath.

## Eiriolaeth

- Mae gwelliannau 78-80 yn mewnosod adrannau newydd 175-177 yn y Bil a fydd yn darparu ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth.  Mae gwelliant 78 (fel y'i diwygiwyd) yn darparu ar gyfer rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth ar gael i unigolion penodol o dan amgylchiadau penodol. Mae gwelliant 81 yn darparu bod y weithdrefn gadarnhaol yn berthnasol i'r gwaith o wneud y rheoliadau hyn.
- Mae gwelliant 78 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi cyhoeddusrwydd i'w gwasanaethau eiriolaeth, ac mae gwelliant 80 yn rhoi'r un gofyniad ar ddarparwyr cartrefi gofal drwy welliannau i *Ddeddf Safonau Gofal 2000*. Mae gwelliant 78A (Lindsay Whittle) yn dileu'r ddarpariaeth yng ngwelliant 78 o ran ffioedd mewn perthynas ag eiriolaeth.

## Camdriniaeth ac esgeulustod sefydliadol

- Mae gwelliant 85 (William Graham) yn ychwanegu "camdriniaeth sefydliadol" at y diffiniadau o gamdriniaeth yn adran 191 o'r Bil.
- Mae gwelliant 94 (William Graham) yn darparu diffiniad o "esgeulustod" ar gyfer oedolion a phlant yn adran 191 o'r Bil, â'r nod o roi eglurder a sicrhau bod esgeulustod yn cael ei flaenoriaethu'n ddigonol yng nghyd-destun diogelu.

## Y camau nesaf

Mae clercod Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth wedi paratoi fersiwn ddiwygiedig o'r Bil.

Dechreuodd y cyfnod adrodd ar 12 Chwefror (y diwrnod ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 3). Cynhelir trafodion y cyfnod adrodd ar 18 Mawrth 2014. Y terfyn amser ar gyfer gosod gwelliannau yn y cyfnod adrodd yw 18.00, 11 Mawrth 2014.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y Bil, cysylltwch â'r prif glerc cyfrifol, Helen Finlayson (**helen.finlayson@cymru.gov.uk**).